# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Ionawr 2024

Amser: 09.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13657

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Sioned Williams AS (yn lle Heledd Fychan AS)<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>John Griffiths AS (yn lle Buffy Williams AS) |
| Tystion: | Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg<br>Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>Owain Lloyd, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Lucy Morgan (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Buffy Williams AS a Heledd Fychan AS, gyda John Griffiths MS yn dirprwyo ar ran Buffy a Sioned Williams AS yn dirprwyo ar ran Heledd.

1.3 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Sioned Williams AS fod ei gŵr yn cael ei gyflogi gan Brifysgol Abertawe.

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - sesiwn dystiolaeth 2

2.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y materion a ganlyn:

- Dadansoddiad llawn o'r cyllid adnoddau o £74.7 miliwn y cyhoeddwyd ym mis Hydref a fyddai'n symud o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2023-24.

- Amlinelliad o faint y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei glustnodi ar gyfer prentisiaethau gradd yn llinell y gyllideb CCAUC/Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac a yw'n disgwyl unrhyw drosglwyddiadau ar gyfer prentisiaethau gradd o Brif Grŵp Gwariant yr Economi yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25.

- Pryd fydd y ffigurau diweddaraf ar gael am y cronfeydd wrth gefn sydd gan ysgolion.

- Rhagor o wybodaeth am y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael i weithlu'r blynyddoedd cynnar.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i gael rhagor o wybodaeth am Raglen Heddlu Ysgolion Cymru.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

4.1 Derbyniwyd y cynnig

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd yn ystod y sesiwn flaenorol.